# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 4 Mehefin 2013** |
| Amser: | **09:02 - 10:58** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_04_06_2013&t=0&l=cy**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson**<br>**Janet Finch-Saunders** |
| Tystion: | **Alan Rogers, Deisebydd**<br>**Brian Pearce, Yr Ymgyrch Caplaniaeth Elusennol**<br>**Jim Stewart, Deisebydd**<br>**Wynne Roberts, Rhwydwaith Rhyng-ffydd Gogledd Orllewin Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Naomi Stocks (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Trawsgrifiad o'r cyfarfod.

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn enwedig Bethan Jenkins AC sy'n dychwelyd i'r Pwyllgor. Cafwyd ymddiheuriadau gan Russell George AC. Roedd Janet Finch-Saunders AC yn dirprwyo ar ei ran.

### 2 P-04-472 Gwnewch y Nodyn Cyngor Technegol Mwynau yn ddeddf
Trafododd yr Aelodau'r sesiwn dystiolaeth ar 14 Mai a thrafod y meysydd yr hoffent eu codi gyda'r Gweinidog pan fydd yn rhoi tystiolaeth lafar. Yn ogystal, cytunodd yr Aelodau i;

- ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn holi ei barn am statws MTAN;
- ysgrifennu at y Gweinidog Tai ac Adfywio yn holi am ddiffiniadau clir o 'amgylchiadau eithriadol' pan fydd modd hepgor y glustogfa 500 metr; ac i
- wahodd yr Arolygiaeth Gynllunio i roi tystiolaeth lafar.

## 3 P-04-442 Sicrhau cymorth da i blant anabl a'u teuluoedd sy’n agos i’w cartrefi

Trafododd yr Aelodau'r sesiwn dystiolaeth ar 14 Mai a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau gan amlygu pryderon y deisebwyr;
- aros am ymateb i ymgynghoriad Anghenion Addysgol Arbennig gael ei gyhoeddi;
- ysgrifennu at SOLACE yn holi am enghreifftiau o arfer da;
- amlygu pryderon ynghylch diffiniad 'lleol' i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol; ac i
- ysgrifennu at y cyrff sy'n cynrychioli iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol ynghylch yr angen i gydweithio.

## 4 Deisebau newydd

### 4.1 P-04-484 Lwfans Cynhaliaeth Addysg i bawb!

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ofyn am ei farn am y ddeiseb.

### 4.2 P-04-485 Camddefnyddio contractau dros dro yn y sector Addysg Bellach

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y canlynol:

- Y Gweinidog Addysg a Sgiliau; a
- ColegauCymru gan holi ei farn am y ddeiseb; a
- phob coleg Addysg Bellach yng Nghymru yn holi am eu defnydd o gontractau dros dro.

### 4.3 P-04-486 Gweithredu nawr er mwyn achub siopau y Stryd Fawr

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y canlynol:

- Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gan holi ei barn am y ddeiseb; a'r
- deisebwr yn holi a yw wedi holi am farn Siambrau Masnach eraill.

## 5 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 5.1 P-04-470 Yn erbyn gwladoli Maes Awyr Caerdydd

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at:

- y deisebwr yn holi am ei farn am lythyr y Prif Weinidog a'r dogfennau ategol, gan holi a yw hyn yn cyflawni amcanion y ddeiseb; a
- Chadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes yn tynnu sylw at y ddeiseb yng nghyd-destun gwaith diweddar ei Bwyllgor ar y pwnc.

### 5.2 P-04-419 Moratoriwm ar Ddatblygu Ffermydd Gwynt

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Gyfoeth Naturiol Cymru i geisio barn y sefydliad am y ddeiseb a holi a fyddai'n ymchwilio i rai o'r materion a godwyd gan y deisebwyr.

### 5.3 P-04-422 Ffracio

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd gan rannu'r ohebiaeth gan y Gweinidog Tai ac Adfywio, a nodi nad yw Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn bwriadu cyflwyno canllawiau ychwanegol, er gwaethaf cais y deisebwyr a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; ac at
- y Gweinidog Tai ac Adfywio yn holi a yw'r Llywodraeth wedi comisiynu unrhyw waith ymchwil ynghylch ffracio neu a yw wedi ceisio cyngor annibynnol ynghylch hynny.

**5.4 P-04-469 Dileu'r Cap Rhanbarthol ar Brisiau mewn Perthynas â'r Cynllun Hawl i Brynu**

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i holi am farn y deisebwr am ohebiaeth y Gweinidog.

**5.5 P-04-385 Deiseb ar ryddhau balŵns a lanternau**

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn gofyn pa gamau a fydd yn cael eu cymryd mewn ymateb i'r adroddiad; ac i
- rannu'r gwaith ymchwil gyda'r deisebwyr.

**5.6 P-04-398 Ymgyrch dros gael cofrestr ar gyfer pobl sy'n cam-drin anifeiliaid yng Nghymru**

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb oherwydd y pryderon ymarferol, cyfriethiol a moesegol a roddwyd sylw iddynt yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad sy'n golygu na fyddai'r fath gofrestr yn ymarferol.

**5.7 P-04-439 Diogelu coed hynafol a choed treftadaeth Cymru ymhellach**

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn rhoi sylw i'r ddeiseb hon, cyn iddo ystyried y Bil Treftadaeth (Cymru);
- ysgrifennu at y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn rhoi sylw i'r ddeiseb hon, cyn iddo ystyried y Bil Cynullunio (Cymru) a'r Bil Amgylchedd (Cymru); ac i
- geisio barn y deisebwr am yr ohebiaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru, gan holi lle yr hoffent weld rhagor o gamau'n cael eu cymryd i warchod coed hynafol a choed treftadaeth.

**5.8 P-04-444 Ymgyrch 'DIG FOR VICTORY'**

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i holi am farn y deisebwr am yr ohebiaeth a ddaeth i law.

**5.9 P-04-403 Achub Plas Cwrt yn Dre/ Hen Senedd-Dy Dolgellau**

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb, gan nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu prynu Plas Cwrt yn Dre.

Yn ogystal â chau'r ddeiseb, cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, gan gyfeirio at y materion a godwyd wrth ystyried y ddeiseb hon a deisebau tebyg sy'n ymwneud â threftadaeth a gofyn iddo ystyried y materion hyn wrth ystyried y Bil Treftadaeth (Cymru).

**5.10 P-03-301 Cydraddoldeb i'r gymuned drawsryweddol**

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb gan na chafwyd ymateb gan y deisebwyr.

## 5.11 P-04-362 Gwasanaethau Ambiwlans ym Mynwy

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn holi sut mae'n bwriadu ymateb i'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiad strategol, a'r amserlen ar gyfer ei weithredu; ac i
- geisio barn y deisebwr am yr Adolygiad Strategol.

## 5.12 P-04-451 Achub Gwasanaethau Ysbyty Brenhinol Morgannwg

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y deisebwr yn gofyn iddo gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus; ac
- aros am ganlyniadau'r ymgynghoriad.

Yn ogystal, gwnaeth yr Aelodau gais am nodyn ar ymdrin â deisebau ynghylch ad-drefnu ysbytai.

## 5.13 P-04-456 Dementia - Gallai hyn ddigwydd i chi

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gan nodi bod Cymdeithas Alzheimer yn cefnogi'r galw i ychwanegu lefel difrifol i'r Offeryn Gwneud Penderfyniadau a holi os yw'n bwriadu cadw ymrwymiad y Gweinidog blaenorol i adolygu'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer gofal parhaus, a'r amserlen ar gyfer y fath adolygiad;
- ysgrifennu at Swyddfa Archwilio Cymru yn holi am gopi a'i hadroddiad ar ofal iechyd parhaus pan fydd wedi ei gyhoeddi;
- ceisio yamteb gan Dementia UK; ac i
- wahodd y deisebwr i roi tystiolaeth lafar.

## 5.14 P-04-458 Cadwch Addysg Bellach yn y Sector Cyhoeddus

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- rannu'r ohebiaeth gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r deisebwr â'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc; ac i
- aros am adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru).

## 5.15 P-03-240 Diogelwch ar ffordd yr A40 yn Llanddewi Felffre

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gan rannu gohebiaeth y deisebwr a holi am:

- ragor o wybodaeth am wella ffyrdd cyswllt
- y wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o gyfyngderau cyflymder yr A40 rhwng Llanddewi Felffre a chylchfan Scotchwell; ac am
- y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Gwella Llanddewi-Penblewin.

## 5.16 P-04-373 Parthau Gwaharddedig o Amgylch Ysgolion ar gyfer Faniau Symudol sy'n Gwerthu Bwyd Poeth

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i holi am farn y deisebwr am yr ohebiaeth a ddaeth i law.

## 6 P-04-457 Yr Ymgyrch Caplaniaeth Elusennol: Sesiwn Dystiolaeth

Atebodd Alan Rogers a Brian Pearce gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

## 7 P-04-474 Cefnogaeth i wasanaethau caplaniaeth y GIG : Sesiwn Dystiolaeth

Atebodd Jim Stewart ac Wynne Roberts gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

Cytunodd Wynne Roberts i roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y gwaith a wneir gan wasanaethau caplaniaeth ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.